# Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol

## Cynllun Diogelwch ar gyfer Gweithrediadau Morol

## 2026-2028



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Awdur a Gwasanaeth: Y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol – Gwasanaeth Harbyrau

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2026
Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2028

**Rhagair a Datganiad Ymrwymo**

Mae Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor), fel yr Awdurdod Harbyrau Statudol ar gyfer Harbyrau Aberystwyth, Aberaeron, a Cheinewydd, ac fel yr Awdurdod Rheoli Cyfrifol ar gyfer cyfleusterau morol eraill sydd o dan ei gyfrifoldeb yn y Sir, yn cydnabod ac yn derbyn ei gyfrifoldebau fel Deiliad Dyletswydd o dan y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol (y Cod). **Mae'r ddogfen hon (y Cynllun Diogelwch Morol) yn nodi ac yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor o ran sicrhau diogelwch gweithrediadau morol a chydymffurfiaeth â'r Cod.** Mae hyn yn cynnwys y canlynol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Cydymffurfio ag egwyddorion, elfennau a gofynion y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol a chynnwys y ddogfen hon (y Cynllun Diogelwch Morol).
- Cynnal System Rheoli Diogelwch Morol sy'n addas i'r diben ac sy'n seiliedig ar asesiad risg ffurfiol.
- Sicrhau bod yr holl ddyletswyddau a phwerau statudol yn cael eu harfer yn gyfrifol ac yn dryloyw.
- Penodi Person Dynodedig i ddarparu sicrwydd annibynnol bod System Rheoli Diogelwch Morol y Cyngor yn effeithiol a'i fod yn cydymffurfio â'r Cod.
- Darparu adnoddau priodol (ariannol, dynol a thechnegol) i gefnogi'r Gwasanaeth Harbyrau a gweithrediadau morol diogel.
- Hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch a gwelliant parhaus ar draws holl weithgareddau'r harbyrau a'r holl weithgareddau morol.
- Cyflwyno datganiad ffurfiol o gydymffurfiaeth â'r Cod unwaith bob tair blynedd i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau.

Bydd y ddogfen hon a'r ymrwymiadau a wneir ynddi:

- Yn cael eu hadolygu bob 3 blynedd neu'n gynharach os bydd unrhyw newidiadau sylweddol mewn gweithrediadau neu ddeddfwriaeth.
- Yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac ar gael mewn fformatau eraill os gwneir cais amdanynt.

Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir Ceredigion gan:

| | | |
|---|---|---|
| Rhodri Llwyd – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol | | 06/03/2026 |
| Y Cynghorydd Shelley Childs – Aelod Cabinet dros y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol | | 06/03/2026 |

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| 1. Cwmpas y Ddogfen | 4 |
| 2. Strwythur Llywodraethu a Rheoli | 5 |
| 3. Cymhwysedd a Hyfforddiant | 6 |
| 4. Cydymffurfio â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol, gan gynnwys Gwaith Archwilio a Monitro Perfformiad | 7 |
| 5. Deddfwriaeth a Pholisïau Perthnasol | 7 |
| 6. System Rheoli Diogelwch Morol | 9 |
| 7. Asesiad Risg | 10 |
| 8. Cyfarwyddiadau | 11 |
| 9. Monitro a Gorfodi Defnyddwyr a Gweithgareddau Harbyrau | 11 |
| 10. Offer Achub Bywyd Glan y Môr | 12 |
| 11. Ardaloedd Amgylcheddol Dynodedig | 12 |
| 12. Ymateb i Argyfwng | 13 |
| 13. Trwyddedu Gweithgareddau a Digwyddiadau | 14 |
| 14. Ymgysylltu â Defnyddwyr a Rhanddeiliaid yr Harbyrau | 14 |
| Atodiad 1 - Gwybodaeth am yr Harbyrau | 15 |
| Atodiad 2 – Cynlluniau'r Harbyrau | 18 |

## 1. Cwmpas y Ddogfen

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â Harbyrau Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd yn ogystal â chyfleusterau ac asedau morol eraill sydd o dan gyfrifoldeb Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'n nodi sut y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ceisio cydymffurfio â gofynion y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol sy'n nodi'r safon genedlaethol ar gyfer diogelwch porthladdoedd a chyfleusterau morol.

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67fd175bed87b81608546666/port-marine-safety-code.pdf

Cyngor Sir Ceredigion yw'r Awdurdod Harbyrau Statudol ar gyfer harbyrau Aberystwyth, Aberaeron a Cheinewydd. Mae hefyd yn gyfrifol am Gymhorthion Mordwyo o fewn ei awdurdodaeth fel yr Awdurdod Goleudai Lleol.

Mae awdurdodaeth Ceredigion yng ngogledd y sir yn dod i ben wrth y marc sy'n nodi penllanw cymedrig y gorllanw (MHWS) yn Ynyslas ar y ffin â Harbwr Aberdyfi (Cyngor Sir Gwynedd). Mae awdurdodaeth Ceredigion yn ne'r Sir yn dod i ben wrth y marc sy'n nodi penllanw cymedrig y gorllanw (MHWS) ar y ffin â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro / Cyngor Sir Penfro. Nid cyfleusterau'r cyngor yw pob un o'r cymhorthion mordwyo ac maent yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan gyrff eraill ac felly nhw sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys Marc Ban y Gorllewin yn y Patsh sy'n cael ei reoli gan Trinity House ac sy'n gyfrifoldeb iddo fel yr Awdurdod Goleudai Cyffredinol, a'r rhai sy'n berthnasol i Aber Afon Teifi sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol gan Afon Teifi Fairways Ltd (ATFL) ac y mae'n gyfrifol amdanynt.

Mae Marina Aberystwyth, sydd wedi'i leoli yn Harbwr Aberystwyth, yn gyfleuster a weithredir yn breifat o dan drefniant prydles gyda Chyngor Sir Ceredigion. Er mai Cyngor Sir Ceredigion yw'r Deiliad Dyletswydd cyffredinol yn ei rôl fel yr Awdurdod Harbyrau Statudol, mae'r cynllun hwn yn berthnasol i Farina Aberystwyth, Mae Marina Aberystwyth yn gyfrifol am reoli ei System Rheoli Diogelwch Morol ei hunan ynghyd â'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol sy'n sail i'w weithrediadau.

Mae'r sianeli mordwyo i Aberteifi ac Aber Afon Teifi yn cael eu rheoli gan Afon Teifi Fairways Limited o dan brydles gyda Chyngor Sir Ceredigion. Nid oes Deddf na Gorchymyn Harbwr yn gysylltiedig â'r lleoliad hwn, ac ystyrir ar hyn o bryd nad Cyngor Sir Ceredigion yw'r Deiliad Dyletswydd mewn perthynas ag unrhyw gyfleusterau morol a weithredir yn y lleoliad hwnnw. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad yn dod o dan y cynllun hwn nac ychwaith System Rheoli Diogelwch Morol ehangach y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ag ATFL mewn perthynas â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol ac mae wedi codi ymwybyddiaeth ATFL o'r Cod. Rhaid i ATFL sicrhau ei fod yn fodlon ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau neu ofynion o fewn y Cod.

At ddibenion y Cod hwn, cymerir bod y term Rheolwr Harbyrau yn golygu'r un peth â'r termau Harbwrfeistr, Docfeistr, Pierfeistr neu dermau tebyg, fel y'i disgrifir mewn

deddfwriaeth genedlaethol a lleol. Yn absenoldeb y Rheolwr Harbyrau, gall Swyddog priodol arall sy'n gweithredu ar ran Cyngor Sir Ceredigion arfer y pwerau hyn.

## 2. Strwythur Llywodraethu a Rheoli

Yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion, Cabinet y Cyngor yw Deiliad Dyletswydd y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol. Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn darparu awdurdod dirprwyedig i Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol i weithredu ar ran y Deiliad Dyletswydd.

Mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau strategol cyffredinol ac mae'n rhoi cyfarwyddyd o ran y Cyngor a'i swyddogaethau, gan gynnwys y Gwasanaeth Harbyrau a Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion a gymeradwywyd gan y Cabinet. Er mai'r Cabinet sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch polisi a chyfeiriad strategol cyffredinol Awdurdodau'r Harbyrau fel y Deiliad Dyletswydd, mae gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol gyfrifoldeb a phwerau i wneud trefniadau addas mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau'r Cyngor o ddydd i ddydd drwy ei Strwythur Rheoli a Thîm y Gwasanaeth Harbyrau.

Bydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, yr Uwch Reolwyr a'r Rheolwr Harbyrau yn cynghori'r Deiliad Dyletswydd yn ffurfiol ar faterion sy'n gysylltiedig â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol a'r System Rheoli Diogelwch Morol gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chyfarwyddyd, polisi ac ymrwymiadau'r Cyngor er mwyn ei gefnogi i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol.

Staff y Gwasanaeth Harbyrau sy'n gyfrifol am reoli'r harbyrau mewn modd gweithredol o ddydd i ddydd ac am roi'r mesurau diogelwch morol ar waith yn unol â'r polisiau, yr asesiadau risg a'r systemau gwaith diogel.

Mae'r tîm yn gyfrifol am y canlynol:

- Rheoli'r System Rheoli Diogelwch Morol a sicrhau bod yr holl ddogfennau ac ardystiadau Rheoli Diogelwch Morol yn cael eu rheoli, eu diweddaru a'u dosbarthu.
- Monitro materion sy'n ymwneud â diogelwch.
- Darparu adroddiadau a chyngor i'r Uwch Reolwyr a'r Deiliad Dyletswydd.
- Cyfrannu tuag at godi ymwybyddiaeth gyffredinol o ddiogelwch morol.
- Cofrestru cychod a chasglu ffioedd a thaliadau sy'n ymwneud â'r Harbyrau.
- Monitro cydymffurfiaeth â Deddfau Statudol, Gorchmynion Adolygu Harbyrau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol mewn perthynas â mordwyo diogel o ran traffig morol.
- Rhoi cyfarwyddyd i gychod er mwyn sicrhau diogelwch o ran mordwyo.
- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo yn briodol.

- Sicrhau bod sianeli mordwyo yn cael eu marcio’n gywir a nodi unrhyw beryglon o ran mordwyo.
- Cynnal archwiliadau diogelwch ac archwiliadau cynnal a chadw yn unol â’r polisïau a’r gweithdrefnau.
- Cofnodi digwyddiadau a damweiniau ac ymchwilio iddynt mewn modd cymesurol.
- Cyfathrebu’n uniongyrchol gyda Defnyddwyr yr Harbyrau a’r Rhanddeiliaid o ddydd i ddydd.
- Cydlynu cyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau.

Dogfennau Pontio / Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Mae dogfen bontio wedi'i datblygu ar ffurf Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gynnwys cyfleusterau morol a weithredir yn breifat ym Marina Aberystwyth. Mae’r broses o ymgysylltu â Marina Aberystwyth yn parhau a’r bwriad yw cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a’i lofnodi.

Ar ôl ei llofnodi, bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu'n barhaus. Os bydd unrhyw gyfleusterau newydd yn cael eu datblygu yn y dyfodol, ystyrir datblygu dogfennau pontio priodol os bernir bod gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw rôl neu gyfrifoldebau ffurfiol mewn perthynas â'r cyfleusterau hyn a'u bod yn dod o dan gwmpas y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol.

Fel y nodwyd yn Adran 1, *Cwmpas y Ddogfen*, mae'r sianeli mordwyo i Aberteifi ac Aber Afon Teifi yn cael eu rheoli gan Afon Teifi Fairways Limited ac ystyrir ar hyn o bryd nad Cyngor Sir Ceredigion yw'r Deiliad Dyletswydd mewn perthynas ag unrhyw gyfleusterau morol a weithredir yn y lleoliad hwnnw. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ag ATFL mewn perthynas â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol ac mae wedi codi ymwybyddiaeth ATFL o’r Cod. Rhaid i ATFL sicrhau ei fod yn fodlon ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau neu ofynion o fewn y Cod.

## 3. Cymhwysedd a Hyfforddiant

Mae swyddogion profiadol a phriodol sydd wedi’u hyfforddi’n iawn yn hanfodol wrth gyflawni dyletswyddau'r Cyngor a sicrhau diogelwch o ran mordwyo. Mae'r Disgrifiadau Swyddi a’r Manylebau Personol ar gyfer rolau o fewn y Gwasanaeth Harbyrau yn amlinellu'r sgiliau, y wybodaeth, y cymwyseddau a, lle bo'n berthnasol, y cymwysterau penodol sydd eu hangen i helpu i sicrhau bod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol yn cael eu bodloni. Mae hyn yn cael ei ategu gan Bolisi Recriwtio a Dethol y Cyngor, y Protocol Dysgu a Datblygu a’r Panel Cymwysterau Corfforaethol.

Wrth ystyried cymhwysedd a hyfforddiant, mae Cyngor Sir Ceredigion yn ceisio gwneud y canlynol:

1. Asesu pa mor addas yw'r holl bobl a benodir i swyddi sydd â chyfrifoldeb, gan sicrhau bod y safonau cymhwysedd gofynnol yn cael eu bodloni.
2. Sefydlu a chynnal amserlen hyfforddi barhaus sy'n briodol ac yn effeithiol a sicrhau bod pawb wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol fel y gallant ymgymryd â'r tasgau y maent yn eu cyflawni.
3. Sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynnal y safonau sydd wedi'u pennu o ran cymhwysedd a hyfforddiant.
4. Adolygu'r hyfforddiant yn barhaus gan sicrhau ei fod yn parhau'n briodol, yn berthnasol ac yn gost-effeithiol a'i fod yn dal i ddiwallu anghenion y staff gweithredol (enghraifft o hyn yw cefnogi'r Rheolwr Harbyrau presennol i gyflawni Tystysgrif Harbwrfeistr y Deyrnas Unedig).
5. Sicrhau bod cofnodion hyfforddi priodol yn cael eu cadw.

Yn ogystal â'r uchod, bydd hyfforddiant priodol ar gyfer y Deiliaid Dyletswydd sydd wedi'i gymeradwyo gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn cael ei drefnu ar gyfer Aelodau'r Cabinet a'r Swyddogion priodol er mwyn eu cefnogi nhw i ddeall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

## 4. Cydymffurfio â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol, gan gynnwys Gwaith Archwilio a Monitro Perfformiad

Yn ogystal â'r Rheolwr Harbwr a fydd yn cynnal adolygiadau mewnol o'r System Rheoli Diogelwch Morol a'n cydymffurfiaeth â gofyniad y Cod, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penodi Person Dynodedig annibynnol a fydd yn cynnal archwiliad o'n cydymffurfiaeth â'r Cod bob tair blynedd. Yn ei adroddiadau, bydd y Person Dynodedig yn asesu perfformiad y Cyngor o ran cydymffurfio â gofynion y Cod a'r Canllaw cysylltiedig ynghylch Arfer Da o ran Gweithrediadau Porthladdoedd a Chynlluniau Morol.

Bydd archwiliad y Person Dynodedig o gydymffurfiaeth yn ceisio darparu sicrwydd i'r Deiliad Dyletswydd ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol.  Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Deiliad Dyletswydd ar gyfer ei adolygu a'i ystyried ac, os bydd diffygion yn cael eu nodi, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ceisio rhoi ar waith, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, unrhyw gamau gweithredu i unioni'r diffygion hyn mewn modd amserol.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i'r canlynol:
Archwiliadau Cymhorthion Mordwyo allanol a gynhelir gan Trinity House yn flynyddol, Archwiliadau Iechyd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a gynhelir gan yr Asiantaeth o bryd i'w gilydd ac Archwiliadau gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn unol â rhaglen archwilio mewnol y Cyngor.

## 5. Deddfwriaeth a Pholisïau Perthnasol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli ei Harbyrau a'i Gyfleusterau Morol yn unol â'r Ddeddfwriaeth Genedlaethol a Lleol, yr Offerynnau a'r Canllawiau Statudol, a'r Polisi presennol ynghylch Rheoli Harbyrau Ceredigion.  Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

Deddfwriaeth Genedlaethol

Mae’r Deddfau Perthnasol sy'n ymwneud â Phwerau Cyngor Sir Ceredigion (fel yr Awdurdod Harbyrau Statudol) a Rheolwr Harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Deddf Cymalau Pierau a Dociau Harbyrau 1847
- Deddf Harbyrau 1964
- Deddf Diogelwch y Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003
- Deddf Llongau Peryglus 1985
- Rheoliadau Nwyddau Peryglus mewn Ardaloedd Harbwr 2016
- Deddf Llongau Masnachol 1995
- Deddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir 2009
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Deddfau a Gorchmynion sy’n ymwneud â Harbyrau

Mae Harbyrau Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd yn ddarostyngedig i Ddeddfau a Gorchmynion Lleol sy'n diffinio maint pob un o'r Harbyrau ac sy’n darparu'r sail gyfreithiol i Gyngor Sir Ceredigion, fel yr Awdurdod Harbwr Statudol, reoli’r harbyrau a’u chynnal a’u cadw. Ceir manylion y Deddfau perthnasol sy'n ymwneud â'r tri Harbwr yn Atodiad 1 (Tabl 1).

Is-ddeddfau

Mae sawl is-ddeddf ar waith. Mae rhai ohonynt yn berthnasol i harbyrau unigol ac mae rhai ohonynt yn berthnasol i’r tri ohonynt ac Aber Afon Teifi. Mae'r Is-ddeddfau hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Is-ddeddfau Promenâd Aberystwyth 2011
- Cyngor Bwrdeistref Aberteifi - Is-ddeddfau Cychod a Llongau Pleser
- Is-ddeddfau Deddf Dŵr Aberystwyth
- Is-ddeddfau Glan y Môr ym Mhlwyf y Borth
- Cyngor Dosbarth Ceredigion - Is-ddeddfau Glan y Môr a Chychod Pleser
- Cyngor Dosbarth Trefol Ceinewydd – Cychod a Llongau Pleser

Ar hyn o bryd mae Tîm y Gwasanaeth Harbyrau yn adolygu'r pwerau a'r amodau sydd wedi’u cynnwys ym mhob is-ddeddf gyda thîm y Gwasanaethau Cyfreithiol yn fewnol.

Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

Mae'r Polisi hwn a gymeradwywyd gan y Cyngor yn nodi'r modd y mae Harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn cael eu rheoli a'u gweinyddu. Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod dull cyson, teg a chyfartal yn cael ei gymhwyso i ddeiliaid angorfeydd a defnyddwyr harbwr newydd, presennol a phosibl yn harbyrau Ceredigion. Ei nod yw sicrhau y deellir yn llawn

y Polisi gweithredol a'r amodau cysylltiedig a'u bod yn deg, yn rhesymol ac yn gyfartal i bawb yn yr hyn sy'n gyfleusterau defnydd a rennir.

Mae'r polisi hwn yn ategu Deddf Harbwr Aberystwyth 1987, Deddf Harbwr Aberaeron 1807, a Deddf Harbwr Ceinewydd 1835, Deddf Cymalau Harbyrau, Dociau a Phierau 1847 (a phob deddfwriaeth berthnasol arall gan gynnwys unrhyw Orchmynion a deddfwriaeth atodol a diwygio dilynol), yr Is-ddeddfau Harbwr cysylltiedig, a'r Telerau ac Amodau ar gyfer defnyddio harbyrau Cyngor Sir Ceredigion.

Mae prif amcanion y polisi fel a ganlyn:

(i) Diffinio'n glir y meini prawf ar gyfer gweithredu a rheoli angorfeydd yn yr harbwr ac unrhyw ddefnydd perthnasol wrth ochr y cei, gan roi sylw dyledus i anghenion a dymuniadau lleol yn ogystal ag annog defnydd a mwynhad y cyhoedd o geiau’r harbwr.
(ii) Parhau i hyrwyddo'r harbyrau fel rhai o'r prif leoliadau yn y sir fel harbyrau gweithredol ac ar gyfer adloniant a gweithgareddau hamdden ar y dŵr, gan ystyried yr angen i ddarparu mynediad diogel a hawdd ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd.
(iii) Cyfrannu'n gadarnhaol at reoli amgylchedd naturiol ac adeiledig yr harbyrau sy'n cynnwys dilyn yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol.
(iv) Darparu trosolwg cyffredinol o gyfrifoldebau a rhwymedigaethau deiliaid angorfeydd/cyfleusterau a darparu amlinelliad o rai o'r telerau allweddol sy'n sail i ddyrannu'r angorfa/cyfleuster.

<u>Canllawiau Cenedlaethol</u>

Wrth weithredu’r Harbyrau a’r Cyfleusterau Morol eraill, mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau cenedlaethol perthnasol gan gynnwys y canlynol:

- Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol 2025 (fel y'i diwygiwyd)
- Canllaw Arfer Da o ran Gweithrediadau Porthladdoedd a Chynlluniau Morol 2025 (fel y'i diwygiwyd)
- Nodiadau Cyfarwyddyd ar Faterion Morol, Nodiadau Gwybodaeth ar Faterion Morol a Hysbysiadau ar gyfer Llongau Masnach (a gyhoeddir gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau).

## 6. System Rheoli Diogelwch Morol

Mae'r System Rheoli Diogelwch Morol yn fframwaith strwythuredig a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Harbyrau i sicrhau bod gweithrediadau a chyfleusterau morol yn cael eu rheoli’n ddiogel ac yn gyfreithlon, yn unol â'r Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol. Mae’r System Rheoli Diogelwch Morol yn berthnasol i'r holl weithrediadau, gweithgareddau a digwyddiadau morol sy'n digwydd ar Ystâd yr Harbyrau ac o fewn terfynau atfor y tri harbwr. Hefyd, y system hon sy’n sail i'r modd y mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei Ddyletswyddau Cadwraeth mewn perthynas â'i weithrediadau.

Mae'r dogfennau gweithredol sy'n rhan o'n System Rheoli Diogelwch Morol yn cynnwys y canlynol:

- Polisi Iechyd a Diogelwch Gweithwyr Cyngor Sir Ceredigion
- Iechyd a Diogelwch - Cyngor Sir Ceredigion
- Harbyrau - Cyngor Sir Ceredigion
- Datganiadau Dull Asesu Risg (RAMS)
- Gweithdrefnau ar gyfer Ymateb i Argyfyngau
- Cynllun OPRC (adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r cynllun yn cael ei gwblhau'n derfynol fel y gellir ei anfon at Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau i'w gymeradwyo)
- Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd - Cyngor Sir Ceredigion
- Gweithdrefnau ar gyfer Cymhorthion Mordwyo
- Cofrestr Asedau a'r Gweithdrefnau cysylltiedig
- Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion a Chyfansoddiad yr Harbyrau
- Cynllun a Gweithdrefnau ar gyfer Archwilio ac Adolygu
- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion
- Log a Chofnodion yr Ymarferion Hyfforddi
- Y ddeddfwriaeth a'r pwerau presennol
- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion
- Cofnod o'r cyflwyniadau diogelwch
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Marina Aberystwyth (adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, roedd y gwaith ar y memorandwm yn mynd rhagddo)
- Cynllun Rheoli Marina Aberystwyth (rydym yn ymgysylltu ar hyn o bryd gyda Marina Aberystwyth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu eu cynllun)

Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu hategu gan archwiliiadau rheolaidd, adolygiadau perfformiad a mecanwaith ar gyfer ymateb i adborth.

## 7. Asesiad Risg

Mae'n ofyniad o dan y Cod Diogelwch Morol ar gyfer Porthladdoedd i sicrhau bod risgiau morol mordwyol yn cael eu hasesu a'u dileu, neu lle na ellir eu dileu, yn cael eu lleihau i'r lefel isaf bosibl, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, yn unol ag arferion da (egwyddor ALARP). Mae pob Asesiad Risg Gwasanaethau Harbyrau yn cael eu hadolygu bob blwyddyn ar y cyd â Thîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cyngor.

Mae'r holl ddigwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt yn cael eu mewnbynnu i System Rheoli Digwyddiadau'r Cyngor yn unol â phrosesau a pholisïau'r Cyngor. Defnyddir y system ar gyfer cofnodi a rhoi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd, ac ymchwilio iddynt. Bydd Risgiau ac Asesiadau Risg hefyd yn cael eu hadolygu ar ôl unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain fu bron â digwydd sy'n berthnasol,

gydag unrhyw wersi a ddysgwyd / mesurau lliniaru pellach a nodwyd yn cael eu rhoi ar waith fel y bo'n berthnasol / yn briodol a lle bo'n ymarferol.

Ar ben hynny, mae'n ofynnol i Dîm y Gwasanaethau Harbyrau roi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau morol i'r MAIB yn unol â Rheoliadau Llongau Masnach (Rhoi Gwybod am Ddamweiniau ac Ymchwilio iddynt) 2012. Mae gweithdrefn wedi'i chynnwys yn y System Rheoli Diogelwch ar y Môr sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â MGN 564 (M + F) Gwelliant 1 – Rhoi Gwybod am Ddamweiniau Morol a Digwyddiadau Morol.

## 8. Cyfarwyddiadau

Ar hyn o bryd, nid oes Cyfarwyddiadau Cyffredinol ar gyfer y tri harbwr. Mae Pwerau Cyfarwyddo Arbennig (a elwir hefyd yn Gyfarwyddiadau'r Harbwrfeistr neu Gyfarwyddiadau Arbennig yr Harbwrfeistr) wedi'u hymgorffori mewn Deddfau a Gorchmynion Lleol (fel y cyfeirir atynt uchod). Rhoddir pwerau er mwyn rhoi cyfarwyddiadau penodol i longau penodol ar gyfer symudiadau penodol. Mae Pwerau Cyfarwyddo hefyd yn rhan o Bolisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.

Lle bo angen, ac er mwyn sicrhau diogelwch mordwyo a defnyddwyr harbyrau, ceir gwneud Cyfarwyddiadau Arbennig i reoleiddio amseriad a modd cyrraedd, gadael a symud y llong o fewn terfynau'r harbwr.

## 9. Monitro a Gorfodi Defnyddwyr a Gweithgareddau Harbyrau

Lle bo angen, ac fel mesur rheoli risg i sicrhau diogelwch morol porthladdoedd, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn rheoleiddio'n briodol y defnydd o'r Harbyrau o fewn ei awdurdodaeth. Bydd Tîm y Gwasanaethau Harbyrau yn defnyddio deddfwriaeth, is-ddeddfau a chyfarwyddiadau cyffredinol perthnasol, ochr yn ochr â'i Bolisi Rheoli Harbyrau, fel sy'n ofynnol i reoleiddio'r defnydd diogel o'i harbyrau. Gall hyn gynnwys defnyddio ei bwerau i roi Cyfarwyddiadau i reoleiddio ymddygiad llongau a phersonau o fewn terfynau harbwr pob harbwr.

Cydnabyddir y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr Harbyrau yn ceisio cydymffurfio â'r gyfraith a chyfarwyddiadau, polisi ac arferion lleol. Lle bo'n bosibl, bydd Awdurdod yr Harbyrau yn helpu defnyddwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Fodd bynnag, lle bo angen, gall Cyngor Sir Ceredigion weithredu yn erbyn y rheini sy'n gweithredu'n anghyfrifol neu'n anghyfreithlon. Bydd unrhyw gamau gweithredu yn gymesur ac yn briodol i ddiogelu a gwella diogelwch y cyhoedd a'r amgylchedd. Diogelwch y cyhoedd, defnyddwyr harbyrau ac ymwelwyr yw'r prif bryder a bydd yn ffocws unrhyw gamau a gymerir.

Mae gwybodaeth a chyngor dwyieithog o ran y rheolau a'r rheoliadau sy'n berthnasol o fewn ei awdurdodaeth yn cael eu lledaenu fel a phan fo angen ac fel rhan o gyhoeddiad hanner blynyddol y Cyngor "Dyfroedd Tawel".

Lle bo angen, mewn ymateb i bryder neu ddigwyddiad, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu â chydweithwyr perthnasol a/neu asiantaethau gorfodi eraill os yw'n briodol.

Lle bo'n briodol, ceisir canllawiau neu gyfarwyddyd cyn cymryd camau a bydd unrhyw gamau a gymerir yn cael eu cyflawni mewn modd teg a chyson i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol.

Gall y camau a gymerir gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Rhybuddion llafar
- Rhybuddion ysgrifenedig
- Canslo’r cytundeb angori (lle bo'n berthnasol)
- Camau gorfodi / Erlyn (os yw'n gymesur ac o fewn budd y cyhoedd)
- Adennill costau

Bydd pob achos yn cael ei asesu yn ôl ei rinweddau unigol gan ystyried unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a Pholisïau a Gweithdrefnau'r Cyngor gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Bolisi Gorfodi Corfforaethol y Cyngor a Pholisi Rheoli'r Harbyrau. Lle bo'n briodol, gofynnir am arweiniad a chyfarwyddyd gan dimau Gwasanaethau Cyfreithiol a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor.

## 10. Offer Achub Bywyd Glan y Môr

Mae gan bob un o Harbyrau Ceredigion offer achub bywyd wedi'u lleoli'n strategol i roi cymorth i'r rheini mewn trafferth. Mae'r offer achub bywyd yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u newid yn ôl yr angen trwy weithdrefn o fewn ein System Rheoli Diogelwch ar y Môr.

Mae offer achub bywyd ym Marina Aberystwyth yn cael eu harolygu, eu rheoli a'u cynnal gan Farina Aberystwyth.

## 11. Ardaloedd Amgylcheddol Dynodedig

Mae Bae Ceredigion yn ardal o arwyddocâd amgylcheddol gyda phob un o Harbyrau Ceredigion o fewn neu gerllaw'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r rhain yn cynnwys:

- ACA Morol Gorllewin Cymru
- ACA Bae Ceredigion
- ACA Afon Teifi
- AGA Gogledd Bae Ceredigion
- SoDdGA Afon Teifi
- SoDdGA Aberarth – Carreg Wylan
- SoDdGA Allt Wen a Thraeth Tan y Bwlch

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y safleoedd hyn drwy: Cyfoeth Naturiol Cymru / Canfod ardaloedd o dir a môr gwarchodedig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | MapDataCymru

Mae Gwasanaeth yr Harbyrau yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Tîm Arfordir a Chefn Gwlad i sicrhau nad yw ei Harbyrau na'i gyfleusterau Morol na'i weithrediadau cysylltiedig, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, yn cael effaith niweidiol ar yr amgylcheddau cyfagos. Mae mwy o wybodaeth am waith y Tîm Arfordir a Chefn Gwlad ar gael yma: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol - Cyngor Sir Ceredigion.

Cyfarwyddir Defnyddwyr Harbyrau i ddilyn Cod Morol Ceredigion i sicrhau nad yw eu gweithgareddau yn achosi effeithiau negyddol diangen ar amgylchedd a bywyd gwyllt Bae Ceredigion. Mae rhagor o fanylion am y cod ar gael yma: Cod Morol Ceredigion | ACA Bae Ceredigion

Mae Gwasanaeth yr Harbyrau yn gweithredu Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladd a gymeradwywyd gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ac mae'n paratoi Cynllun Bod yn Barod am Lygredd Olew, Ymateb Iddo a Chydweithredu mewn Perthynas ag Ef i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ei gymeradwyo sy'n cwmpasu pob un o'r Harbyrau i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Llongau Masnach a Chychod Pysgota (Cyfleusterau Derbyn Gwastraff Porthladdoedd) 2003 a Rheoliadau Llongau Masnach (Confensiwn Bod yn Barod am Lygredd Olew, Ymateb Iddo a Chydweithredu mewn Perthynas ag Ef) 1998 ac, i ddiogelu'r amgylchedd naturiol a'i nodweddion ynddo.

## 12. Ymateb i Argyfwng

Yn ogystal â'r Cynlluniau a'r trefniadau Rhanbarthol a Lleol o ran Argyfyngau Sifil Posibl, mae Tîm y Gwasanaethau Harbyrau wedi sefydlu cynlluniau a gweithdrefnau ymateb i argyfwng mewn perthynas â'r canlynol:

Llygredd Olew

Bydd y Cynllun Bod yn Barod am Lygredd Olew, Ymateb Iddo a Chydweithredu mewn Perthynas ag Ef yn manylu ar y trefniadau wrth gefn ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau gwirioneddol neu fygythiedig o ran llygredd y môr o fewn Harbyrau Cyngor Sir Ceredigion.

Gweithdrefnau Gweithredu mewn Argyfwng

Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer argyfyngau mordwyol sy'n deillio o faterion gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddamweiniau / digwyddiadau morol ac achubiad morol.

Bydd y Cyngor hefyd yn ildio a / neu'n alinio lle bo'n briodol ag unrhyw weithdrefnau Cynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n cael eu deddfu.

## 13. Trwyddedu Gweithgareddau a Digwyddiadau

Ar gyfer unrhyw weithgareddau a digwyddiadau a drefnir sy'n cael eu cynnal ar Ystadau'r Harbyrau neu o fewn terfynau'r Harbyrau (Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd) rhaid gwneud cais am ddefnyddio tir / cyfleusterau'r Cyngor yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yma:

Gweithgareddau a Digwyddiadau - Cyngor Sir Ceredigion

## 14. Ymgysylltu â Defnyddwyr a Rhanddeiliaid yr Harbyrau

Mae Tîm y Gwasanaethau Harbyrau yn wasanaeth tryloyw ac mae'n cyfathrebu ac yn ymgynghori â Defnyddwyr a Rhanddeiliaid yr Harbyrau ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys pob agwedd ar y Cod Diogelwch Morol ar gyfer Porthladdoedd a'r System Rheoli Diogelwch ar y Môr. Mae'n cyfathrebu â defnyddwyr yr harbyrau trwy:

- Tudalen we yr Harbyrau
- Cylchlythyrau Dyfroedd Tawel hanner blynyddol
- Cyfarfodydd Ymgynghorol hanner blynyddol Defnyddwyr yr Harbyrau
- Hysbysiadau Lleol i Forwyr
- Cymorthfeydd Harbyrau Misol
- Ymgynghoriadau Anffurfiol a Ffurfiol (lle ystyrir eu bod yn briodol / angenrheidiol)

Mae Defnyddwyr a Rhanddeiliaid yr Harbyrau hefyd yn gallu cysylltu / ymgysylltu â'r Cyngor drwy ei Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid Clic (ffôn, e-bost a Fy Nghyfrif), drwy'r post ac yn bersonol yn Swyddfeydd yr Harbyrau yn ystod eu horiau gweithredu. Gellir cysylltu â'r Cyngor drwy:

- Ffôn: 01545 570881
- E-bost: clic@ceredigion.gov.uk
- Ar-lein - Cysylltwch â ni - Cyngor Sir Ceredigion
- Post: Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

Dylid gwneud ymholiadau sy'n ymwneud â Marina Aberystwyth yn uniongyrchol iddynt – gellir dod o hyd i ragor o fanylion yma: Aberystwyth Marina

**Atodiad 1 - Gwybodaeth am yr Harbyrau**

Mae'r tri Harbwr sy'n cael eu rheoli a'u gweithredu gan Gyngor Sir Ceredigion yn cael eu rheoli gan Gyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Harbwr Statudol. Mae'r Harbyrau yn 'borthladdoedd agored', lle mae gan unrhyw ddefnyddiwr yr hawl i lywio ac angori ynddynt yn amodol ar dalu'r ffioedd a'r taliadau priodol mewn perthynas â defnydd angori neu fynediad arall i gyfleusterau ac yn amodol ar gydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi lleol.

Mae pob Harbwr yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan Dîm Gwasanaethau Harbyrau'r Cyngor o dan gyfarwyddyd Rheolwr yr Harbwr. Caiff harbyrau eu rheoli o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyfleusterau a lansiadau, yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.

Mae amryw o angorfeydd a chyfleusterau llawr caled ar gael ar draws y tri harbwr a chyfleuster. Ceir mwy o wybodaeth am y rhain yn **Nhabl 1** isod mewn perthynas â phob Harbwr.

Harbwr Aberaeron

Mae Harbwr Aberaeron yn harbwr pictiwrésg a hanesyddol wedi'i leoli wrth aber Afon Aeron, wedi'i leoli o fewn rhan ganolog Bae Ceredigion ar oddeutu 52°14'.62N 004°15'.91W. Mae'r harbwr yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer defnyddwyr hamdden, cychod dŵr hamdden, a thwristiaid, gyda'i fynedfa wedi'i hamgylchynu gan y dref i'r gogledd a'r arfordir golygfaol i'r de. Mae'r harbwr yn gartref i gychod teithiau masnachol a chychod hamdden. Mae Harbwr Aberaeron yn cael ei reoli gan Gyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Harbwr Statudol, sy'n goruchwylio'r angorfeydd o fewn y prif harbwr a'r harbwr mewnol bychan o'r enw Pwll Cam. Gweler **Tabl 1** am fwy o wybodaeth sy'n ymwneud â'r harbwr ac Atodiad 2 am gynlluniau sy'n ymwneud â'r Harbwr.

Harbwr Aberystwyth

Mae Harbwr Aberystwyth yn harbwr pysgota hanesyddol wrth gymer Afon Rheidol i'r gogledd, ac Afon Ystwyth i'r de ac mae wedi'i leoli yn rhan ganolog Bae Ceredigion ar 52°24'.42N 004°05'.48W. Mae'r harbwr a'r ardal gyfagos yn boblogaidd gyda defnyddwyr hamdden, defnyddwyr cychod dŵr hamdden a nofwyr gyda mynedfa'r harbwr wedi'i lleoli rhwng Tan-y-bwlch i'r De a Thraeth De Aberystwyth i'r Gogledd. Mae'r Harbwr yn gartref i fflyd leol o gychod pysgota, cychod hamdden, marina preifat, a gorsaf Bad Achub Aberystwyth. Gweler **Tabl 1** am fwy o wybodaeth sy'n ymwneud â'r harbwr ac Atodiad 2 am gynlluniau sy'n ymwneud â'r Harbwr.

Mae rheolaeth Harbwr Aberystwyth wedi'i rhannu rhwng Tîm Gwasanaethau Harbyrau'r Cyngor a'r Marina a weithredir yn breifat. Mae Tîm y Gwasanaethau Harbyrau yn rheoli'r angorfeydd ar hyd Cei'r Dref, Glanfa Dewi Sant, llwybr pren, yr harbwr mewnol (a adwaenir yn lleol fel y Bwlch) a rhan o bontŵn ar draws y brif sianel o Gei'r Dref.

Harbwr Ceinewydd

Mae Harbwr Ceinewydd yn harbwr pictiwrésg a hanesyddol wedi'i leoli ar arfordir Bae Ceredigion yng Ngorllewin Cymru.  Mae Harbwr Ceinewydd wedi'i leoli yn rhan ganolog Bae Ceredigion tua 52°12'.94N 004°21'.29W.  Mae'r harbwr wedi'i swatio rhwng clogwyni calchfaen serth a thref Ceinewydd, gan roi amgylchedd cysgodol ar gyfer gweithgareddau amrywiol.  Mae'r harbwr a'r ardal gyfagos yn gartref i ddefnyddwyr hamdden, gweithredwyr cychod teithiau masnachol, defnyddwyr cychod dŵr hamdden, fflyd bysgota fach, nofwyr ac RNLI Ceinewydd.  Gweler **Tabl 1** am fwy o wybodaeth sy'n ymwneud â'r harbwr ac Atodiad 2 am gynlluniau sy'n ymwneud â'r Harbwr.

## Tabl 1 – Crynodeb o Wybodaeth am yr Harbyrau

| | Aberaeron | Aberystwyth | Ceinewydd |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriad Swyddfa'r Harbwr: | Swyddfa'r Harbwrfeistr, Traeth y De, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0BE | Swyddfa'r Harbwrfeistr, Cei'r Dref, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1JX | Swyddfa'r Harbwrfeistr, Y Pier, Ceinewydd, Ceredigion, SA45 9NW |
| Lledred/Hydred (Mynedfa'r Harbwr) | 52°14’.62N 004°15’.91W | 52°24’.42N 004°05’.48W | 52°12'.94N 004°21’.29W |
| Deddfwriaeth Leol: | Deddf Harbwr Aberaeron 1807 a Gorchymyn Harbwr Aberaeron 1956 | Deddf Harbwr Aberystwyth 1987 | Deddf Harbwr Ceinewydd (Aberteifi) 1835<br>Gorchymyn Harbwr Ceinewydd (Aberteifi) 1952 (yn ymgorffori adrannau o Ddeddf 1847)<br>Gorchymyn Harbwr Ceinewydd (Aberteifi) (Diwygio) 1961<br>Gorchymyn Diwygio Harbwr Ceinewydd (Aberteifi) 1973 |
| Rhifau Siart y Morlys: | 1484 Cynlluniau ym Mae Ceredigion, 1972 Rhan Ganolog Bae Ceredigion a 1410 Sianel San Siôr | | |
| Mathau o Angorfa: | Cefnen, Glan y Cei a Llawr Caled | Cefnen, Glan y Cei, Pontŵn a Llawr Caled | Cefnen, Glan y Cei, Dyfndwr a Llawr Caled |
| Nifer Angorfeydd Hamdden y Cyngor: | 118 | 100 (ynghyd â 6 drwy'r flwyddyn llawr caled) | 169 |
| Nifer Angorfeydd Masnachol y Cyngor: | 7 | 12 | 29 |
| Nifer Angorfeydd Ymwelwyr y Cyngor | 1 | Yn dibynnu ar argaeledd | Yn dibynnu ar argaeledd |
| Nifer Angorfeydd Marina Preifat | Amherthnasol | 154 (1162m o ardal pontŵn llinellol) | Amherthnasol |
| Cymhorthion i Lywio: | Gweler Siart y Morlys 1484 a Hysbysiadau Lleol i Forwyr | | |
| Sensitifrwydd Amgylcheddol: | O fewn SoDdGA Aberarth – Carreg Wylan, ACA Morol Gorllewin Cymru ac ACA Morol Bae Ceredigion | ACA Morol Gorllewin Cymru ac AGA Gogledd Bae Ceredigion a SoDdGA Traeth Tanybwlch o fewn ffiniau'r harbwr | O fewn SoDdGA Aberarth – Carreg Wylan, ACA Morol Gorllewin Cymru ac ACA Morol Bae Ceredigion |
| Cychod tynnu: | Dim | Dim | Dim |
| Peilotiaeth: | Dim | Dim | Dim |
| Gwasanaethau Traffig Llongau, a Gwasanaethau Porthladd Lleol | Dim. Aberdaugleddau a Chaergybi yw'r canolfannau agosaf o ran Gwasanaethau Traffig Llongau | | |
| Angorfeydd: | Gweler Cyfarwyddiadau Hwylio a BA1484 | | |
| Cyfleusterau Mynediad: | 2 x llithrfa a reolir gan y Cyngor | 4 x llithrfa a reolir gan y Cyngor ac 1 x grid sychu a reolir gan y Cyngor<br>1 x llithrfa a reolir gan y marina | 2 x llithrfa a reolir gan y Cyngor |
| Cyfleusterau Trin Cargo: | Derics bach a ddefnyddir yn anaml ar gael ar hyd cei'r dref SWL 200kg | Derics bach a ddefnyddir yn anaml ar gael ar hyd cei'r dref SWL 200kg | Dim |
| Peryglon (piblinellau, ceblau uwchben ac ati): | Dim | Seilwaith piblinell Angorfa Tanwydd a Weithredir gan y Marina a gwifrau trydanol y Marina. Dim ceblau uwchben | Dim |
| Amrediad Llanw: | Amrediad Codi Cymedrig: 4.3m<br>Amrediad Treio Cymedrig: 1.5m<br>(pob gwerth yn fras) | Amrediad Codi Cymedrig: 4.3m<br>Amrediad Treio Cymedrig: 1.7m<br>(pob gwerth yn fras) | Amrediad Codi Cymedrig: 4.3m<br>Amrediad Treio Cymedrig: 1.5m<br>(pob gwerth yn fras) |
| VHF: | Mae VHF Ch. 14 a 16 yn cael eu monitro pan fydd y swyddfa wedi'i staffio. | Mae VHF Ch 14 a 16 yn cael ei fonitro pan fydd swyddfa'r harbwr wedi'i staffio | Mae VHF Ch. 14 a 16 yn cael eu monitro pan fydd y swyddfa wedi'i staffio |

## Atodiad 2 - Cynlluniau'r Harbyrau

## Appendix 2 – Harbour Plans

**Cyngor Sir Ceredigion**
**Ceredigion County Council**

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
Ffôn/Tel. 01545 570881

## Terfynau Harbwr Aberaeron
## Aberaeron Harbour Limits

**NI DDYLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDYWIO**
Nodyn: Mae Mynedfa Harbwr Aberaeron wedi cael ei hailadeiladu ar raddfa fawr ers y ddelwedd hon

**NOT TO BE USED FOR NAVIGATION**
Note: Aberaeron Harbour Entrance has since undergone large scale reconstruction since this image

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100024419
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata cyfyngedig Ty Gwybodaeth ar Lywodraeth Leol 2025 100024419
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2025 100024419
© Getmapping plc 2000 | © COWI / Bluesky 2006
© Next Perspectives. Welsh Government 2009, 2013. Llywodraeth Cymru 2009, 2013

G N



**Cyngor Sir Ceredigion**
**Ceredigion County Council**
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
Ffôn/Tel. 01545 570881

## Cyfleusterau Harbwr Aberaeron
## Aberaeron Harbour facilities

**NI DDYLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDWYIO**
Nodyn: Mae Mynedfa Harbwr Aberaeron wedi cael ei hailadeiladu ar raddfa fawr ers y ddelwedd hon

**NOT TO BE USED FOR NAVIGATION**
Note: Aberaeron Harbour Entrance has since undergone large scale reconstruction since this image

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100024419
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata cyfyngedig Ty Gwybodaeth ar Lywodraeth Leol 2025 100024419
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2025 100024419
© Getmapping plc 2000 | © COWI / Bluesky 2006
© Next Perspectives. Welsh Government 2009, 2013. Llywodraeth Cymru 2009, 2013





**Ffigur 1. Delwedd o'r awyr o Harbwr Aberaeron yn dilyn adeiladu Cynllun Amddiffyn yr Arfordir (BAM DU ac Iwerddon, 2025) - NI DDYLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO**

**Figure 1. Aerial image of Aberaeron Harbour following Coastal Defence Scheme construction (BAM UK & Ireland, 2025) - NOT TO BE USED FOR NAVIGATION**

**Cyngor Sir Ceredigion**
**Ceredigion County Council**
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
Ffôn/Tel. 01545 570881

## Terfynau Harbwr Aberystwyth
## Aberystwyth Harbour Limits

**NI DDYLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDYWIO**

**NOT TO BE USED FOR NAVIGATION**

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100024419
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata cyfyngedig Ty Gwybodaeth ar Lywodraeth Leol 2025 100024419
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2025 100024419
© Getmapping plc 2003 | © COWI / Bluesky 2006
© Next Perspectives. Welsh Government 2009, 2013. Llywodraeth Cymru 2009, 2013





Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
Ffôn/Tel. 01545 570881
Cyfleusterau Harbwr Aberystwyth
Aberystwyth Harbour facilities
NI DDYLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDYWIO
NOT TO BE USED FOR NAVIGATION
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100024419
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata cyfyngedig Ty Gwybodaeth ar Lywodraeth Leol 2025 100024419
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2025 100024419
© Getmapping plc 2000 | © COWI / Bluesky 2006
© Next Perspectives. Welsh Government 2009, 2013. Llywodraeth Cymru 2009, 2013
G N
G N
Allwedd / Key:
Angorfeydd trot / Trot moorings
Angorfeydd wrth y cei / Quayside moorings
Ardaloedd llawr caled / Hardstanding areas
Angorfeydd pontŵn / Pontoon moorings
Llithrfeydd / Slipways
Isadeiledd Marina Aberystwyth / Aberystwyth Marina Infrastructure

**Cyngor Sir Ceredigion**
**Ceredigion County Council**
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
Ffôn/Tel. 01545 570881


## Terfynau Harbwr Ceinewydd
## New Quay Harbour Limits

**NI DDYLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDYWIO**

**NOT TO BE USED FOR NAVIGATION**

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100024419
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata cyfyngedig Ty Gwybodaeth ar Lywodraeth Leol 2025 100024419
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2025 100024419
© Getmapping plc 2000 | © COWI / Bluesky 2006
© Next Perspectives. Welsh Government 2009, 2013. Llywodraeth Cymru 2009, 2013

G N



**Cyngor Sir Ceredigion**
**Ceredigion County Council**
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
Ffôn/Tel. 01545 570881

## Cyfleusterau Harbwr Ceinewydd
## New Quay Harbour facilities

**NI DDYLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDYWIO**

**NOT TO BE USED FOR NAVIGATION**

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey 100024419
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata cyfyngedig Ty Gwybodaeth ar Lywodraeth Leol 2025 100024419
© Local Government Information House Limited copyright and database rights 2025 100024419
© Getmapping plc 2000 | © COWI / Bluesky 2006
© Next Perspectives. Welsh Government 2009, 2013. Llywodraeth Cymru 2009, 2013

